**Cyngor Cymuned Cilymaenllwyd**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd nos Fawrth, 31 Mawrth 2026 yng Nghaffi Beca am 7.30pm**

**Yn bresennol:** Russell Davies (Cadeirydd), Anthony Jenner, Dennis Jones, Michael Fussel,l Ffion John, Tudur Lewis, Julian Williams, Cyng Dorian Phillips, Janice Morgan (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Anthony Eynon. Rebecca Jaimangal-Jones

Croesawodd RD bawb i'r cyfarfod.

2. **Datganiadau o ddiddordeb:** O dan eitem 6 Cynllunio.

3. **Cofnodion y cyfarfod diwethaf 27/1/26:**

- Cynigiwyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd ar 27/1/26 yn gywir gan TL ac eiliwyd gan DJ.

**Materion yn codi o'r cofnodion:**

- **Camau gweithredu:**

– **MF i ymchwilio i'r broses Adran 278, gofynion dylunio, a'r angen posibl am balmant, ac i gysylltu â'r Pennaeth Priffyrdd ynghylch y gofynion cychwynnol, gan gynnwys y posibilrwydd o wneud cyn-gais.**
Mae'r Adran Briffyrdd wedi cwrdd â DP, RD ac MF ynglyn â chreu man tynnu mewn ar bwys Carreg Goffa Terfysg Beca. Nid oedd y swyddog yn gweld unrhyw broblemau ynghylch hyn. Byddai modd symud y clawdd i mewn ychydig a chael ffens ond ni fyddai angen newid y cyrbiau. Byddai angen cyflwyno cais a chwblhau Adran 278. Bydd y swyddog yn dod nôl â mwy o wybodaeth am beth fydd angen gwneud.

– **DP i edrych mewn i berchnogaeth y tir lle mae'r gofeb arno.**
Cadarnhaodd DP nad y Cyngor Sir sydd berchen ar y tir lle mae'r gofeb. Mae'r gofeb tu allan i ffin perchnogaeth y Cyngor.

– **DP i edrych mewn i Bryn Haul gan fod y tŷ wedi bod yn wag ers blynyddoedd ac mewn cyflwr gwael iawn.**
Cysylltodd JW â'r Adran Tai Gwag a derbyniwyd cadarnhad y bydd swyddog ymchwilio yn archwilio'r eiddo ac yn adrodd ar eu canfyddiadau cyn penderfynu ar unrhyw gamau gweithredu. Nodwyd y gall ymchwiliadau o'r fath fod yn hir oherwydd cymhlethdodau posibl. Dywedodd DP fod y sefyllfa o ran Bryn Haul yn un cymhleth.

– **DP i gysylltu â pherchennog Glandy Mawr ac ymchwilio i'r mater ymhellach.**
Dywedodd DP ei fod wedi cysylltu â pherchennog Glandy Mawr ynglyn â'r agoriad sy'n arwain i mewn i'r pwll slyri heb ffens neu iet. Mae'r perchennog wedi gosod dwy iet yn yr agoriad hwn erbyn hyn.

– **JM i edrych i mewn i sefydlu grŵp casglu sbwriel, cofrestru gyda Cadwch Gymru'n Daclus, a hysbysebu'r fenter ar Facebook.**
Cysylltodd JM â'r Cyngor Sir ynghylch trefnu grŵp casglu sbwriel cymunedol ac awgrymwyd y dylai'r grŵp weithio gyda Chanolfan Casglu Sbwriel Cadwch Gymru'n Daclus yn Sanclêr, sy'n gallu darparu offer, arweiniad ac yswiriant.

Oherwydd y galw mawr, mae grwpiau yn cael eu cyfeirio at hybiau lleol yn hytrach na chyflenwi citiau yn uniongyrchol. Mae JM wedi cofrestru diddordeb gyda'r hwb ac yn aros am ragor o wybodaeth. Awgrymwyd casglu sbwriel ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis (amser i'w gadarnhau).
**Cam gweithredu: JM i hysbysebu'r fenter casglu sbwriel ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned a dosbarthu holiadur i gasglu diddordeb, dyddiadau/amserau a ffefrir, ac awgrymiadau am ardaloedd o fewn y gymuned.**

**4. Gohebiaeth**

- Cyflwynodd Y Cardi Bach gais am nawdd ariannol o £500 a chyflwynodd Cymdeithas Cwm Cerwyn (Ymgyrch i Godi Cerflun o Twm Carnabwth) gais am £1,500. Bydd y ddau gais yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Tachwedd 2026.
- Cyflwynodd Merched y Wawr Rhanbarth Penfro gais am gymorth. Yn dilyn derbyn gwybodaeth ychwanegol, cytunwyd rhoi swm o £250; mae'r siec wedi'i hanfon, ac e-bost o ddiolch wedi'i dderbyn oddi wrth Bethan Picton Jones.
- Gwrthodwyd cais gan Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen am ei hapêl codi arian flynyddol.
- Mae nifer o ymgynghoriadau a gwybodaeth am sesiynau hyfforddi wedi'u rhannu ag aelodau.
- Derbyniwyd e-bost gan Jason Lawday yn ymwneud â chwyn a dderbyniodd am y ddomen ar bwys Penrallt. Bydd Julian yn gwneud gwaith atgyweirio, gan gynnwys ailadeiladu'r bwnd, creu draeniad dyfnach, clirio mwd, a gosod haen o gerrig. Cafwyd adborth cadarnhaol gan yr achwynydd, gan nodi'r gwelliannau i'r llwybrau yn nyffryn Y Wenallt a'i bod yn bleser cerdded yno.

**5. Diweddariad Cyllid ac arwyddo sieciau**

- Diweddariad cyllid: cadarnhaodd JM o'r 30/3/26, balans y cyfrif cyfredol yw £4,966.20. Mae taliadau o'r cyfarfod diwethaf wedi eu gwneud, ac eithrio siec o £250 i Ferched y Wawr.
- Mae TAW am y flwyddyn (£376.05) wedi cael ei hawlio a'i dderbyn.

- Arwyddo sieciau:

– Jamie King – rheoli gwefan (Ebrill – Gorffennaf): £150 a chynnal y wefan ar gyfer 26/27: £110 = £260
– Cyngor Sir Caerfyrddin – cynnal a chadw goleuadau troedffyrdd ac ynni (01/04/25–31/03/26): £1,381.96
– Llogi Caffi Beca ar gyfer cyfarfod 31/3/26: £25
– Cyflog y Clerc (Ionawr – Mawrth 2026): £503.75
– Cyfanswm taliadau: £2,170.71
– Balans sy'n weddill ar ôl y taliadau: £2,795.49, yn gostwng i £2,545.49 ar ôl taliad Merched y Wawr.

- Cynhelir archwiliad llawn ar gyfer 2025-26. Mae hyfforddiant ar-lein rhad ac am ddim yn canolbwyntio ar archwiliadau ar gael i glercod a chadeiryddion; mae JM yn bwriadu mynychu'r sesiwn ar 8/4/26 am 6:30pm.

**6. Cynllunio**

- Mae tri chais cynllunio wedi'u cyflwyno ers y cyfarfod diwethaf:

- PL/10400 – Cerflun Twm Carnabwth - Caffi Beca, Efailwen, Clunderwen, SA66 7UY. Dim gwrthwynebiad; cytunwyd anfon llythyr o gefnogaeth gan ei fod o bwys cenedlaethol, ac mae hynny wedi cael ei gyflwyno i'r adran Gynllunio.
- PL/10447 – Trosi garej bresennol yn ystafell gerddoriaeth ac ystafell astudio/hobi - Brodyfed, Efailwen, Clunderwen, SA66 7UY. Datganodd FfJ ddiddordeb yn y cais cynllunio hwn gan adael y cyfarfod i drafod. Dim gwrthwynebiad.
- Dychwelodd FfJ i'r cyfarfod.
- PL/10541 – Ffenest 'dormer' newydd ar ochr flaen y to - Y Garth, Login, Hendy-gwyn ar Daf, SA34 0TG. Dim gwrthwynebiad.

**7. Diweddariad gan y Cynghorydd Sir**

- Golau ar bwys Nebo – riportiodd DP hwn ac mae nawr yn gweithio'n iawn.
- Mae bagiau sbwriel du dal yn cael eu gadael yn Ynys Fach er bod arwydd yno yn dweud ei bod yn anghyfreithiol gwneud. Gwelwyd 10/12 yno y diwrnod o'r blaen.
- Mae cyflwr yr heolydd mewn ambell le yn wael; dydy'r 'hot box' sy'n trwsio tyllau ffordd ddim yn gweithio ar hyn o bryd. Cadarnhawyd bod y tyllau ar bwys Rhos Bowen wedi cael eu gwneud ond mae'r rhiw yn Llanglydwen yn ofnadwy a hefyd y ffordd ar bwys Waunffrwd.
- Os mae pobl yn riportio'r tyllau ffordd i'r Cyngor Sir, maen nhw'n dod allan i'w trwsio. Dywedodd JW bod y Cyngor Sir wedi trwsio'r mannau a gafodd eu riportio ganddyn nhw.
- Problemau llifogydd mewn mannau; mae DP wedi bod yn Tynewydd Pant yn ddiweddar a bydd swyddog o'r Cyngor yn dod allan cyn bo hir. Riportiwyd problemau dŵr hefyd yn y parc tu ôl Caffi Beca a Bro Dyfed.
  **Cam gweithedu: FfJ i drafod y broblem dŵr yn cronni yn y parc gyda Keith Thomas gan fod y beipen yn ei ardd. Bydd angen peipen fwy o faint o bosib i ddatrys y broblem.**
- Plascrwn, Login – dywedodd DP nad yw'r eiddo mewn cyflwr rhy wael ac mae'n debyg mai bwriad y perchennog yw ei adfer.
- Mae llawer o waith wedi'i wneud ar ffosydd y ffyrdd yn yr ardal. Bydd 'gripiau' yn cael eu gosod a bydd hyn yn gwella'r dŵr ar y ffordd.
- Pentwr o deiars ar ochr parc rhwng Glandy Cross â'r cyffordd i Faenclochog – riportiwyd bod pentwr o deiars yno rhyw fis nôl ac mae'n debyg nad oes neb yn berchen ar y darn hwn o dir.
  **Cam gweithredu: MF i wirio os yw'r pentwr o deiars dal ar ochr y parc rhwng Glandy Cross â'r cyffordd i Faenclochog**
- Cynhelir Rali Teifi Bro Preseli ar 18/4/26. Riportiwyd bod yr arwydd 20 mya ar bwys Glasfryn a'r arwydd arall yr ochr draw i Bantycaws wedi cael eu bwrw lawr.
  **Cam gweithredu: DP i ofyn i'r Cyngor Sir i ailosod yr arwyddion 20mya ym Mhantycaws cyn y rali ar 18/4/26**

**8. Iechyd a Diogelwch a Lles**

- Llwybrau troed cyhoeddus – mae DP wedi siarad gyda Kirsty Stiles a chadarnhawyd mai cyfrifoldeb y perchennog tir yw clirio gordyfiant a choed sydd wedi cwympo a bod Tîm Cynnal a Chadw'r Sir yn gyfrifol am edrych ar ôl arwynebau'r llwybrau troed.
- Dywedodd RD bod CHartt yn mynd i roi llwyth o gerrig lawr ar bwys Penrallt.
- Dywedodd RD y bydd yn clirio tair coeden sydd wedi cwympo ar bwys y bont sydd ar ei dir fory. Cwympodd un ar y ford bicnic a'i thorri ond mae modd ei thrwsio.

- Riportiwyd bod y llwybrau troed yn weddol glir erbyn hyn o ran coed yn cwympo a bod tipyn o waith clirio wedi cael ei wneud gan SGriffiths ar ei dir yn ddiweddar.
- Adroddodd JM ei bod wedi derbyn e-bost gan Jason Lawday yn cadarnhau y bydd darn o'r Llwybr Landsker yn cael ei ailgyfeirio drwy'r dyffryn, yn hytrach na mynd ar y fordd, i wella diogelwch a phrofiad y defnyddiwr. Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad gan berchnogion tir, ac mae'r newid wedi ei gyflwyno i'r Arolwg Ordnans er mwyn diweddaru'r mapiau. Bydd y llwybr newydd yn flaenoriaeth (Categori A) gyda gwaith cynnal a chadw rheolaidd gan y Cyngor, wedi'i gefnogi gan dimau clirio gwirfoddolwyr. Mae llwybr troed 4/12/2 yn parhau i fod yn anaddas i gerdded arni ac yn aros am waith cynnal a chadw. Mae gwelliannau tymor byr wedi cael eu gwneud ar lwybr troed 4/16 gyda gwaith tymor hirach wedi'i gynllunio. Mae'r Cyngor Sir yn bwriadu gosod gatiau yn lle camfeydd lle bo modd er mwyn gwella hygyrchedd.

**9. Bioamrywiaeth**

Gyda nifer o goed wedi cwympo yn ystod y gaeaf diwetha a nifer ohonyn nhw oherwydd 'Ash dieback', y gobaith nawr yw y bydd y coed ffawydd yn cydio.

**10. Unrhyw fater arall**

- Capel Hebron – derbyniwyd diweddariad gan BR, un o'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau bod popeth yn mynd yn ei flaen yn dda a bod y broses gyfreithiol bron wedi'i chwblhau.
- Bydd Eglwys Llanglydwen yn cynnal digwyddiad ddydd Sul, 2.30 ar 19/4/26 a bydd yr arian yn mynd at Bwyllgor Apêl Efailwen, Llanglydwen, Login, Cwmiles a Hebron. Mae'r Pwyllgor wedi mynd heibio ei darged erbyn hyn.
- Cynllun Harddu Eisteddfod Garreg Las – mae'r prosiect yn gwahodd y gymuned i addurno'r ardal ar gyfer ymwelwyr yr Eisteddfod.
  **Cam gweithredu: JM i rannu'r wybodaeth am Gynllun Harddu Eisteddfod y Garreg Las gyda'r Cyngor.**
- Iet Ysgol Beca – adroddwyd bod iet yr ysgol ar glo a hynny ers rhyw fis. Deëllir y dylai maes chwarae yr ysgol fod ar gael i blant y gymuned gael chwarae arno.
  **Cam gwithredu: RJJ i ofyn i Ysgol Beca ynglyn â pham mae'r iet wedi cael ei chloi. JM hefyd i anfon e-bost.**
- Cyhoeddodd DJ ei fwriad i ymddeol o'i rôl fel Cynghorydd ac mai dyma fyddai ei gyfarfod olaf. Diolchodd y Cyngor yn fawr iddo am ei wasanaeth ffyddlon o dros 30 mlynedd a dymunwyd yn dda iddo.

**11. Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Nos Fawrth 26 Mai 2026 am 7.30yh

*Daethpwyd â'r cyfarfod i ben gan y Cadeirydd am 8.50yh*

Arwyddwyd Cadeirydd: ....T R Davies.......... Dyddiad: 26/05/2026.